Cyllid & Thollau EM

# Cofrestru partner ar gyfer Hunanasesiad os nad yw'n unigolyn

## Ynglŷn â'r ffurflen hon

Defnyddiwch y ffurflen hon i gofrestru partneriaid nad ydynt yn unigolion.

Er enghraifft, os yw'r ymddiriedolaeth, partneriaeth neu'r cwmni rydych yn gyfrifol amdano wedi ymuno â phartneriaeth fel partner newydd.

Mae'n cynnwys cwestiynau sy'n helpu Cyllid a Thollau EF (CThEF) i benderfynu ynghylch anghenion y partner o ran ei Ffurflen Dreth.

Os yw'r partner yn unigolyn, peidiwch â defnyddio'r ffurflen hon. Yn hytrach, dylai'r partner newydd lenwi ffurflen SA401 'Cofrestru partner ar gyfer Hunanasesiad a CYG Dosbarth 2'.

Rhaid i bob partner lenwi ffurflen SA401 neu SA402 ar wahân, fel y bo'n briodol.

Rhaid i'r bartneriaeth gofrestru ar wahân gan ddefnyddio ffurflen SA400 'Cofrestru partneriaeth ar gyfer Hunanasesiad'.

**Pwy ddylai lenwi'r ffurflen hon?**

Llenwch y ffurflen hon os ydych yn gyfrifol am gofrestru partner mewn partneriaeth, ac nid yw'r partner hwnnw yn unigolyn.

Os yw'r partner ei hun yn bartneriaeth, neu os yw'n ymddiriedolaeth, bydd yn rhaid i'r ffurflen hon gael ei llenwi gan y partner neu'r ymddiriedolwr enwebedig.

Y partner enwebedig yw'r partner a enwebwyd gan y bartneriaeth i gael a chyflwyno Ffurflenni Treth y bartneriaeth.

**Penodi asiant**

Er mwyn awdurdodi asiant i weithredu ar ran y partner, gallwch naill ai lenwi ffurflen 64-8 'Awdurdodi eich asiant', neu ofyn i'ch asiant fynd ar-lein er mwyn cael yr awdurdod.

Holwch eich asiant ynghylch awdurdodi ar-lein, neu lawrlwythwch ffurflen 64-8 yn www.gov.uk/government/publications/tax-agents-and- advisers-authorising-your-agent-64-8.cy

**Os oes angen help arnoch**

Os bydd angen help arnoch, ffoniwch Wasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF ar 0300 200 1900.

Os ydych yn ffonio o'r tu allan i'r DU, deialwch +44 191 200 1900.

**Yr hyn i'w wneud nesaf**

Anfonwch eich SA401 a'ch 64-8, wedi'u llenwi, (os yn briodol) i:
Swyddfa Cyfraniadau Yswiriant Gwladol a Chyflogwyr
Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF
HMRC
BX9 1ST

Gall y ffurflenni hyn gael eu hanfon ynghyd â'r SA400 ac unrhyw ffurflen SA401 a SA402, ond peidiwch ag atodi unrhyw beth arall.

## Ynglŷn â'r partner

1 **Enw'r partner**

2 **Math o bartner**

Er enghraifft, cwmni, partneriaeth, ymddiriedolaeth, cyngor sir

3 **Cyfeiriad y busnes**

Cod post

4 **Rhif ffôn**

5 **A yw'r partner yn breswyl yn y DU?**

Na ☐ Iawn ☐

6 **Os yw'r partner wedi cofrestru ar gyfer Hunanasesiad neu Dreth Gorfforaeth yn flaenorol, beth yw ei Gyfeirnod Unigryw y Trethdalwr (UTR)?**

7 **Os yw'r partner yn Bartneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig (PAC) neu'n Bartneriaeth Gyfyngedig (PG), beth yw ei Rif Cofrestru'r Cwmni (CRN)?**

8 **Os yw'r partner yn gynllun pensiwn cofrestredig, beth yw ei Gyfeirnod Cynllun Pensiwn?**

## Ynglŷn â'r bartneriaeth yr ymunwyd â hi

9 **Enw'r bartneriaeth**

10 **Cyfeiriad y bartneriaeth**

Cod post

11 **Beth yw natur y busnes a gyflawnir?**
Er enghraifft, plymwyr, busnes buddsoddi, peirianwyr trydanol

12 **Pryd y gwnaeth y partner ymuno â'r bartneriaeth?** DD MM BBBB

13 **A yw'r ffurflen SA400 'Cofrestru partneriaeth ar gyfer Hunanasesiad' wedi cael ei llenwi ar gyfer y bartneriaeth hon?**

Na ☐ Iawn ☐

**Os 'Iawn', ewch i gwestiwn 14**
**Os 'Na'**

- Os taw Partneriaeth Gyffredin yw hon, neu os cofrestrwyd y Bartneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig (PAC) neu'r Bartneriaeth Gyfyngedig (PG) hon gyda Thŷ'r Cwmnïau cyn 25 Hydref 2010, defnyddiwch ffurflen SA400 i gofrestru'r bartneriaeth.
- Os cofrestrwyd y PAC neu'r PG hon gyda Thŷ'r Cwmnïau ar 25 Hydref 2010, neu ar ôl hynny, nodwch Rif Cofrestru'r Cwmni (CRN) isod

14 **Nodwch Gyfeirnod Unigryw y Trethdalwr (UTR) y bartneriaeth, os yw'n hysbys?**

## Datganiad

15 **Eich enw**

16 **Ym mha rinwedd yr ydych yn llofnodi'r ffurflen hon?**

| | | |
|---|---|---|
| Ysgrifennydd y cwmni | ☐ | Ewch i **gwestiwn 18** |
| Partner enwebedig | ☐ | Ewch i **gwestiwn 17** |
| Ymddiriedolwr | ☐ | Go to **gwestiwn 17** |
| Asiant | ☐ | Go to **gwestiwn 18** |
| Arall (nodwch) | ☐ | Rhowch fanylion isod ac ewch i **gwestiwn 18** |

17 **Cyfeirnod Unigryw y Trethdalwr (UTR) y partner neu'r ymddiriedolwr enwebedig**

18 **Eich cyfeiriad**

Cod post

19 **Rhif ffôn**

Rwy'n datgan:

- bod yr wybodaeth a roddwyd gennyf ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred
- byddaf yn rhoi gwybod i Gyllid a Thollau EF ar unwaith petai fy amgylchiadau'n newid mewn ffordd sy'n effeithio ar yr atebion a roddwyd gennyf ar y ffurflen hon.

**Llofnod**

**Dyddiad** DD MM BBBB